RSPB

miliwn o
leisiau dros
fyd natur

MEDDYLIWCH AM FYD NATUR
SUT MAE RHOI BYWYD I DDATBLYGU CYNALADWY

Mark Hamblin (rspb-images.com)

> “Os ydym am ymestyn ein bodolaeth ein hunain, mae’n rhaid i ni ddiogelu’n hamgylchfyd – y byd naturiol rydym ni’n byw ynddo.”
>
> **Andrew Marr, *Darwin’s Dangerous Idea*, 2009**

RHAGAIR

Mae byd natur yn bwysig. Mae'n bwysig am ei fod yn cynnig gwasanaethau cyhoeddus rhad ac am ddim, er enghraifft rheoli hinsawdd, gwarchod rhag llifogydd, dŵr glân a phriddoedd iach. Mae'n bwysig am fod cyswllt â byd natur yn gallu cyfoethogi ein bywyd a gwneud i ni deimlo'n well. Mae'n bwysig am fod gennym ymrwymiad moesol i sicrhau fod miliynau o rywogaethau sy'n rhannu'r un blaned â ni yn goroesi.

Ac mae cyn bwysiced â chyfoeth materol. Roedd Robert Kennedy yn gywir pan ddywedodd yn 1968, "ddown ni ddim o hyd i bwrpas cenedlaethol na bodlonrwydd personol wrth barhau â chynnydd economaidd yn unig, wrth bentyrru golud bydol yn ddiben draw." Roedd delw wleidyddol fwy diweddar, yr Arlywydd Barak Obama, yr un mor gywir yn ei anerchiad wrth gael ei urddo i awgrymu na allwn "lyncu adnoddau'r byd heb ystyried yr effaith."

Felly, mae unrhyw strategaeth economaidd sy'n methu amddiffyn yr amgylchfyd naturiol a sicrhau ein bod yn byw oddi fewn i gyfyngiadau amgylcheddol, yn methu ag ymdrin yn llawn â'n lles ac yn peryglu cenedlaethau'r dyfodol. Dyma'r neges roedd y rhai a fathodd gyntaf yr ymadrodd "datblygiad cynaladwy" yn ceisio ei chyfleu

Yn rhy aml mae'n adnoddau naturiol yn dioddef yn wyneb datblygiad (mwy o dai, ffyrdd, meysydd awyr, ayyb.). Y canlyniad yw dirywiad yn y gwasanaethau mae natur yn eu cynnig. Mae newid hinsawdd yn cynnig yr enghraifft enbytaf o'r hyn y gall y canlyniadau posibl fod os ydym yn methu byw oddi fewn i'n cyfyngiadau amgylcheddol. Mae gwyddonwyr erbyn hyn yn credu bod 10% pellach o rywogaethau mewn perygl o ddifodiant am bob un radd y mae'r tymheredd yn godi, tra bod ffawd ein rhywogaeth ni hefyd yn cael ei roi mewn perygl.

Wrth i wleidyddion chwilio am ffordd allan o'r wasgfa ariannol bresennol, rhaid i ni ddangos fod buddsoddiad parhaol mewn bywyd gwyllt yn gwneud synnwyr, ac i gymell gwrthwynebiad yn erbyn unrhyw gynllun adferiad economaidd sy'n aberthu bywyd gwyllt er mwyn cynnydd economaidd. Rydym am i'n llywodraethau fuddsoddi yn y pethau y bydd ein plant yn diolch i ni amdanynt.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu pam y dylem ymdrechu i fyw oddi fewn i gyfyngiadau amgylcheddol ac yn cynnig pecyn cymorth i gynorthwyo gwneuthurwyr polisïau i ystyried byd natur. Gellir canfod asesiad os yw Llywodraeth y DU a'r cyrff gweinyddol a ddatganolwyd yn ymateb i her datblygu cynaladwy ac yn byw oddi fewn i gyfyngiadau amgylcheddol ar www.rspb.org.uk/sd

Martin Harper
Pennaeth Datblygu Cynaladwy
RSPB

Andy Hay (rspb-images.com)

> “Gall rhywun ddweud mai gwarchod bioamrywiaeth yw ein hyswiriant bywyd ar gyfer y dyfodol.”
>
> **Stavros Dimas, Comisiynydd Amgylchedd yr UE**

MAE'R RSPB YN CREDU MEWN DATBLYGU CYNALADWY

Mae amddiffyn yr amgylchedd naturiol yn greiddiol i ddatblygu cynaladwy. Bydd gwell planed i fywyd gwyllt yn well planed i bobl hefyd. Rydym eisiau byd ble nad ydym yn colli bioamrywiaeth a ble mae ein gweithredoedd yn cynorthwyo i sicrhau rheolaeth gynaladwy o adnoddau'r blaned. Byddai'r fath fyd yn cynnig awyr a dŵr glân, hinsawdd sefydlog, bywyd gwyllt llewyrchus ac economi rymus, amrywiol a chynaladwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Yn 2005, roedd Llywodraeth y DU, y cyrff gweinyddol a ddatganolwyd yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru yn ymddangos fel pe baent yn rhannu'r uchelgais hwn. Cytunwyd ar fframwaith cyffredin ar gyfer datblygu cynaladwy, o'r enw "Sicrhau'r Dyfodol". Gosododd y fframwaith hon ddau fwriad: byw oddi fewn i gyfyngiadau amgylcheddol a darparu cymdeithas gyfiawn drwy drefn lywodraethol dda, gwyddoniaeth gadarn ac economi gynaladwy. Roedd y pum egwyddor wedi'u bwriadu i hybu agwedd integredig tuag at bolisi a gwneud penderfyniadau ar draws pob adran, drwy ddarparu lens ble gellid edrych ar bob cynnig.

Ers hynny, mae'n anodd dangos ein bod wedi bod yn ffyddlon i'r egwyddorion hyn. Yn fyd eang mae Asesiad Ecosystem y Mileniwm[1] yn dangos fod colli bioamrywiaeth yn cyflymu a bod bodau dynol yn defnyddio adnoddau naturiol angenrheidiol – er enghraifft dŵr ffres – ar raddfa a fydd yn cael effaith arwyddocaol ar les cenedlaethau dyn a bywyd gwyllt y dyfodol. Mae'r DU ymhlith economïau mwya'r byd a phedwerydd mewnforiwr mwya'r byd o nwyddau a marsiandïaeth (ee cynnyrch amaethyddol, tanwydd a mwynau). Mae'n rhaid i ni felly ddwyn peth cyfrifoldeb am y dirywiad yn yr amgylchedd naturiol ledled y byd

Yn y DU, mae'r sefyllfa'r un mor bryderus:

- rhywogaethau yn parhau i ddirywio
- cynefinoedd sy'n cael blaenoriaeth a lleoliadau wedi'u gwarchod yn parhau yn ddirywiedig
- allyriadau carbon deuocsid ddim yn cael eu torri'n ddigon cyflym
- defnydd o ddŵr yn anghynaladwy.

Canlyniad i wahanol newidiadau gwleidyddol ar draws y DU yw bod egwyddorion datblygu cynaladwy 2005 bellach yn dal llai o ddŵr. Er enghraifft, er bod gweinidogion yn gwybod am yr her, mae'r ymadrodd yn absennol o fframwaith perfformiad newydd Llywodraeth yr Alban. Mae'r fframwaith hwn yn tanategu cyllid Llywodraeth yr Alban ac felly mae ganddo'r potensial o allu cael effaith ar yr holl weinyddiaeth. Yr her ar hyn o bryd, fel ar draws y DU i gyd, yw sicrhau fod rhethreg datblygu cynaladwy yn cael ei droi yn weithredoedd.

Er bod ymdriniaeth o ddatblygu cynaladwy yn amrywio ar draws y DU, mae'r RSPB yn dadlau fod "parchu cyfyngiadau amgylchedd y blaned" yn aros yn egwyddor sylfaenol, gan danategu datblygu cynaladwy. Wnaiff cymdeithas sy'n byw oddi fewn i gyfyngiadau amgylcheddol ddim goddef parhau i golli bioamrywiaeth; ddim achosi anhrefn hinsawdd; ddim disbyddu neu ddiraddio adnoddau naturiol cyfyngedig, er enghraifft dŵr, priddoedd a mwynau; ac ni wnaiff ganiatáu erydiad o ecosystemau sy'n cynnal anghenion dynol, gartref neu dramor

[1] I ddysgu mwy, gwelwch Asesiad Mileniwm "cyflwyniad 20 munud" . www.milleniumassessment.org/ên/SlidePresentations.aspx

Kaleel Zibe (rspb-images.com)

> “Ni ddyrchefir y ddynoliaeth am ein bod mor bell uwchlaw creaduriaid byw eraill, ond oherwydd bod eu hadnabod yn dda yn codi'r union gysyniad o fywyd”
>
> **Edward O. Wilson, Ymchwilydd ac awdur Americanaidd**

PAM FOD NATUR YN BWYSIG?

NID MOETHUSRWYDD YW AMGYLCHEDD NATURIOL IACH, OND MAE'N SYLFAENOL I FODOLAETH DYN

Mae'r amgylchedd naturiol yn cynnig nwyddau a gwasanaethau rhad diben draw i fodau dynol: bwyd, coed, dŵr glân, ynni, diogelwch rhag peryglon naturiol, rheoli hinsawdd, cynhwysion fferyllol a hamdden. Mae lles pob poblogaeth ddynol yn y byd yn sylfaenol yn dibynnu ar "wasanaethau'r ecosystem" hynny. Mewn gwledydd sy'n datblygu, o ble y daw llawer o'n hadnoddau crai a'n mewnforion (ee olew palmwydd, coffi, te, cotwm ayyb.), mae'r bobl dlotaf yn aml yn dibynnu'n uniongyrchol ar wasanaethau ecosystemau er mwyn eu bywoliaeth

MAE GAN FYWYD GWYLLT WERTH CYNHENID

Mae'r RSPB yn credu fod rheidrwydd moesol i warchod miliynau o rywogaethau sy'n rhannu'r blaned gyda ni. Mae hyn uwchlaw eu gwerth i'r ddynoliaeth. Mae hyn yn aml yn cael ei esgeuluso oherwydd ei fod mor anodd ei fynegi yn nhermau arian. Eto, mae graddfa'r gefnogaeth i gadwraeth natur o gwmpas y byd yn dangos y rôl sydd gennym ni fel stiwardiaid byd natur. Yma yn y DU mae dros filiwn o bobl yn cefnogi'r RSPB - mwy nag aelodaeth gyfunol bob un o'n pleidiau gwleidyddol.

BYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL YN DIODDEF ODDI WRTH BLANED A DDIRADDIWYD.

Gwyddom ei bod yn amhosibl cynnal, ledled y byd, wanc anniwall y "Gorllewin" diwydiannol am ynni ac adnoddau crai am gyfnod amhenodol. Nodwedd o orddefnyddio yw colli bioamrywiaeth. Mae lefelau presennol o ddefnydd a chynhyrchu yn barod yn cam-drin adnoddau naturiol y blaned. Bydd hyn yn wirioneddol beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gyfarfod â'u hanghenion. Pe bai'r DU yn gorfod darparu ar gyfer ei hunan, gallai gynnal poblogaeth o 17 miliwn[2]; eto, mae poblogaeth y DU ychydig dros 60 miliwn. Pe bai'r byd i gyd yn defnyddio adnoddau fel rydym ni, byddai angen tair planed arnom i gynnal ein hunain. Mae hyn yn codi'r cwestiwn, beth fydd yn digwydd pan fydd yr oll o India a Thsiena, gyda phoblogaeth ar y cyd o 2.4 biliwn yn byw fel rydym ni'n byw? Mae gan y rhai hynny yn y gwledydd sy'n datblygu'r hawl i gysuron materol ac i rannu'r buddiannau datblygedig rydym ni wedi'u mwynhau. Mae angen felly, i'r DU yn ddiymdroi i gynnig arweinyddiaeth a darganfod llwybr mwy cynaladwy fel y gall eraill geisio ei ddilyn.

[2] The Earth versus the Economy, The Ecologist (April 2008)

PAM RYDYM YN METHU?

Mae economi cynaladwy yn uchafu lles pobl heddiw, wrth sicrhau fod gan genedlaethau'r dyfodol y cyfle i gyrraedd lefelau o les sydd o leiaf yr un mor uchel â ni.

David Norton (rspb-images.com)

YR ECONOMI YDI O, GWIRION

Tra bod economi'r DU wedi tyfu (yn nhermau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth - GDP) 55% ers 1990, nid oes gwarant y bydd cynnydd mewn llewyrch economaidd yn trosglwyddo buddiannau amgylcheddol neu les i gymunedau. Yn yr un cyfnod :

- mae poblogaethau adar ar dir fferm ac mewn coetiroedd wedi syrthio dan lefelau 1990[3];
- mae poblogaethau gloÿnnod byw wedi syrthio; mae dros dri chwarter o 59 rhywogaeth y DU yn dirywio ac mae 5 rhywogaeth wedi diflannu[4],
- mae tewdra oedolion a phlant bron wedi dyblu.

Mae adroddiad[5] a gychwynnwyd gan y G8+5 ar Economeg yr Ecosystemau a Bioamrywiaeth yn dangos y costau anferth ac amrywiol eu hystod a gysylltir â cholli bioamrywiaeth. Drwy'r byd amcangyfrifir y bydd hyn yn gorbwyso'r colledion yn y sector ariannol yn 2008[6]. Mae datblygiad economaidd angen nwyddau crai o adnoddau naturiol, "nid oes yr un economi heb amgylchedd ond mae amgylcheddau heb economi."[7]. Eto rydym yn methu gwarchod yr adnoddau naturiol hynny, a'r ecosystemau sy'n eu cynhyrchu. Mae cadwraeth natur yn aros fel ail ystyriaeth ac nid yw'n cael ei weld fel sail i'n bodolaeth.

Mae buddsoddiadau yn ein hamgylchedd naturiol yn cynnig cyflogaeth bwysig, mewn rhai achosion mewn ardaloedd oedd cyn

hynny'n cynnal ychydig neu ddim gweithgarwch economaidd. Amcangyfrifir yn Lloegr yn unig fod rheolaeth ein hamgylchedd naturiol yn cynnal 55,000 o swyddi amser llawn. Mae hyn yn dod â'r budd ychwanegol o gynnal o leiaf 245,000 o swyddi sy'n dibynnu ar amgylchfyd naturiol o'r ansawdd uchaf ar gyfer eu busnesau, er enghraifft twristiaeth leol.

Wrth i ni ddiraddio'r amgylchedd naturiol rydym hefyd yn bygwth y gwasanaethau mae'r ecosystem yn eu cynnig - gwasanaethau na allem fodoli hebddynt. Er enghraifft, gall buddsoddiadau mewn seilwaith gwyrdd, mewn cynefinoedd fel glaswelltiroedd, coetiroedd a gwlyptiroedd, liniaru'r niwed a wneir gan lifogydd, ac felly arbed arian. Amcangyfrifwyd fod yr hyn a hawliwyd gan yswiriant ar ôl llifogydd haf 2007 rhwng £1.5 a £3 biliwn. Mae gwir gost y llifogydd yn llawer uwch pan ystyrir yr adeiladau nad ydynt wedi'u hyswirio a'r straen a achosir i deuluoedd gafodd eu hamddifadu o'u cartrefi.

Mae buddsoddiadau yn ein hamgylchedd naturiol hefyd yn gwneud synnwyr economaidd da gan eu bod yn gostwng y pwysau ar arian cyhoeddus. Mae'r DU yn wynebu bom amser ym myd iechyd gan fod tewdra plant ac oedolion wedi dyblu dros y ddegawd ddiwethaf. Mae disymudrwydd corfforol yn costio £8 biliwn y flwyddyn i'r DU a chytunodd y Llywodraeth fod angen iddynt wneud mwy i gyfarfod â'r targed o rwystro'r cynnydd mewn tewdra plant erbyn 2012. Maes arall o bryder cynyddol ynglŷn ag iechyd cyhoeddus yw maes iechyd meddwl, gydag un ymhob chwech yn Lloegr yn dioddef o anhwylder iechyd meddwl, sy'n costio £41.8 biliwn i'r pwrs cyhoeddus bob blwyddyn.

Mae astudiaethau'n dangos fod cael mynediad i natur a gofod gwyrdd yn gallu helpu i gynyddu lefelau o weithgaredd corfforol ac yn gwella iechyd corfforol a meddyliol, ac felly'n gostwng y pwysau ar y gwasanaethau iechyd. Dangoswyd bod cleifion wrth gael triniaethau llawfeddygol a phrofion yn yr ysbyty angen llai o boen laddwyr ac yn gwella ynghynt os ydynt yn gweld golygfeydd naturiol. Mae'r rhai o'r darganfyddiadau cryfaf yn ymwneud ag iechyd plant ac yn dangos fod chwarae mewn amgylchedd naturiol yn gwella datblygiad cymdeithasol, meddyliol a chorfforol plant

3 Sustainable development indicators in your pocket 2007, www.defra.gov.uk/news/2007/070727a.htm

4 The State of Britain's butterflies (2007). Gweler www.butterfly-conservation.org/downloads/75/the State_of_Britain's_Butterflies.html

5 Mae grŵp arweinyddion y G8+5 yn cynnwys penaethiaid llywodraeth cenhedloedd y G8 (Canada, Ffrainc, Yr Almaen, yr Eidal, Japan, Rwsia, y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau) yn ogystal â phenaethiaid pump o'r economïau sy'n dod i'r amlwg ac yn arwain ar hyn o bryd (Brasil, Tsiena, India, Mecsico a De Affrig)

6 The Economics of ecosystems and biodiversity. Adroddiad Interim (2008)

7 The Economics of ecosystems and biodiversity. Adroddiad interim (2008)

8 Mitchell, R. and Popham, F. (2008) Effect of exposure to natural environment on health inequalities: an observational population study http://eprints.gla.ac.uk/4767/1/4767.pdf

Eleanor Bentall (rspb-images.com)

Mae lles yn golygu bod yn hapus, yn iach ac yn ffyniannus. Mae cyrraedd y cyflwr hwn yn dibynnu nid yn unig ar incwm, ond hefyd ar amrywiaeth cymhleth o ffactorau eraill. Er enghraifft mae nifer o astudiaethau wedi dangos y gall mynediad i fannau gwyrdd (er enghraifft parciau, coedwigoedd, meysydd chwarae a choridorau o afonydd) fod yn seicolegol ac yn ffisegol "adnewyddol". Gall helpu i ostwng pwysedd gwaed a lefelau straen a gall hybu dioddefwyr i wella ynghynt ar ôl triniaeth lawfeddygol. Gall mynediad i amgylchedd naturiol hefyd fod o gymorth i oresgyn anghyfartaledd iechyd sy'n gysylltiedig ag incwm. Mae anghyfartaledd o ran iechyd yn llai amlwg ymhlith y bobl sydd â mwy o fynediad i fannau gwyrdd [8].

BETH ELLIR EI WNEUD?

I fyw yn gytûn â natur, mae dwy her yn wynebu llywodraethau ac awdurdodau cyhoeddus. Yn gyntaf, mae'n rhaid iddynt ymyrryd yn uniongyrchol i gadw ac i gyfoethogi bywyd gwyllt a'r amgylchfyd naturiol. Yn ail, er mwyn mynd ar drywydd dibenion polisi cyhoeddus, rhaid iddynt rwystro aberthu'r amgylchedd naturiol yn ddiangen. Rydym ni felly yn cynnig fframwaith newydd, ymarferol i arfogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i feddwl a gweithredu gyda natur yn cael blaenoriaeth. Os caiff ei fabwysiadu fel pecyn, credwn y bydd yr egwyddorion hyn yn cefnogi integreiddio amddiffyn yr amgylchedd i bolisïau a phenderfyniadau ar bob lefel. Yn fyr, mae angen pobl i YSTYRIED BYD NATUR!



Mark Hamblin (rspb-images.com)

1 DYLID DIFFINIO TERFYNAU AMGYLCHEDDOL

Nid yw terfynau amgylcheddol yn fannau di-droi'n-ôl . Mae mannau di-droi'n-ôl, yng nghyd-destun datblygu cynaladwy, yn disgrifio'r pwynt ble mae systemau naturiol yn newid eu cyflwr, yn aml yn ddi-droi-ôl a gyda chanlyniadau trychinebus. I sicrhau gwarchod effeithiol a rheoli cynaladwy, rhaid gosod terfynau amgylcheddol cyn cyrraedd y man di-droi'n-ôl .

Mae llywodraethau wedi tueddu i ddiffinio terfynau amgylcheddol yn nhermau targedau a deddfau sydd wedi'u gosod er mwyn gwarchod yr amgylchedd naturiol ar lefelau daearyddol gwahanol. Er nad yw'r ymrwymiadau hyn ynddynt eu hunain yn ddigon i rwystro terfynau amgylcheddol rhag cael eu croesi, maent yn cynnig cyfeirbwynt defnyddiol i asesu cynnydd y llywodraeth.

Yn fyd-eang, mae llywodraethau wedi ymrwymo eu hunain i:

- arafu'n arwyddocaol graddfa colli bioamrywiaeth erbyn 2010 (Uwch Gynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaladwy)
- gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr o 12.5% erbyn 2010 o'i gymharu â lefel 1990 (Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd)
- sicrhau stoc bysgod cynaladwy erbyn 2012 (Uwch Gynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaladwy)

Oddi fewn i Ewrop, mae gwladwriaethau sy'n aelodau o'r UE yn gorfod sicrhau fod:

- gan rywogaethau, cynefinoedd a safleoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol statws cadwraethol ffafriol (Cyfarwyddebau'r UE ar Adar, Cynefinoedd a Rhywogaethau)
- pob sefydliad dŵr mewn statws ecolegol da erbyn 2015 (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE)
- ein moroedd yn cyrraedd statws ecolegol da (Cyfarwyddeb Fframwaith Strategol Morol yr UE)
- 20% o ynni Ewrop yn dod o ffynonellau adnewyddol erbyn 2020 (Cyfarwyddeb Ynni Adnewyddol yr UE)

Gartref mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi gosod targedau i :

- adnewyddu'r rhywogaethau a chynefinoedd sydd dan fygythiad sydd ar restr Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU
- gwarchod a rheoli safleoedd gorau bywyd gwyllt – Ardaloedd/ Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- atal ac wedyn gwrthdroi'r dirywiad mewn adar ffermydd
- gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr o 20% erbyn 2010 ac o 80% erbyn 2050.

Mae'r RSPB yn cefnogi agwedd sy'n cael ei harwain gan dargedau tuag at gadwraeth natur a gwarchod adnoddau naturiol. Mae'r targedau hyn yn darparu ffocws ar gyfer cadwraeth, yn annog archwilio ac yn sicrhau atebolrwydd. Rydym ni'n dadlau mai'r targedau hyn yw craidd ein huchelgais i fyw oddi fewn i derfynau amgylcheddol.

David Tipling (rspb-images.com)

2 DYLAI BYW ODDI FEWN I DERFYNAU AMGYLCHEDDOL FOD YN GREIDDIOL I STRATEGAETH Y LLYWODRAETH

Bu llawer ymdrech i ddarparu'r fframwaith cyfreithiol cywir i fyw oddi fewn i derfynau amgylcheddol. Sefydlwyd dros 100 o wahanol ddyletswyddau. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus i "gyfrannu at" neu "i fod â pharch at" ddatblygu cynaladwy neu gadwraeth natur. Mae rhai'n gweithio'n well na'i gilydd. Fodd bynnag mae llwyddiant yn dibynnu nid yn unig ar destun cyfreithiol, ond hefyd ar ddehongliad o'r canllaw a'r awydd sy'n perthyn i'r rhai sydd mewn awdurdod i fyw yn ôl ysbryd y gyfraith.

Yn rhy aml mae amcanion economaidd– gymdeithasol yn cael blaenoriaeth o flaen pryderon amgylcheddol. Mae'r RSPB wedi cefnogi galwadau am chwyldro ynni i ymateb i her newid hinsawdd. Eto, dylai llywodraethau gynnig canllawiau strategol cliriach i ddangos sut y gall datblygu ynni adnewyddol angenrheidiol ddigwydd heb niweidio'r amgylchedd naturiol.

Cred yr RSPB y dylai ddeddfwrfa cyfrifol sicrhau fod pob sefydliad cyhoeddus a phob rhan o'r llywodraeth yn cael cyfarwyddyd clir. Dylent gael eu gorchymyn i fyw oddi fewn i derfynau amgylcheddol oddi fewn i gyd-destun datblygiad cynaladwy. Er bod rhinweddau mewn corffori hyn yn y gyfraith mewn dull cyson, mae angen mwy na dyletswydd i fyw oddi fewn i derfynau amgylcheddol a bydd angen iddynt gael eu hategu, o leiaf gan offer ac egwyddorion eraill a ddisgrifir yn y llyfryn hwn.

Ernie Janes (rspb-images.com)

Mae awdurdodau cyhoeddus yn yr Alban wedi'u gorfodi i hybu cadwraeth bioamrywiaeth tra mae awdurdodau yng Nghymru a Lloegr â llai o ddyletswydd i barchu bioamrywiaeth. Nid oes y fath ddyletswydd yn bod i arwain sefydliadau cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon.

3 DYLID GWNEUD PENDERFYNIADAU AR SAIL GWYDDONIAETH GADARN

Gwyddoniaeth gadarn yw'r sail i'w ddefnyddio i wneud penderfyniadau. O'i ddefnyddio'n gyfrifol, gall helpu i newid ymddygiad cymdeithas a sicrhau fod ein hecsploetiaeth o adnoddau cyfyngedig ac adnewyddol y blaned yn aros oddi fewn i derfynau amgylcheddol.

Dyna pam mae mor bwysig fod llywodraethau yn rhoi cyllid digonol ar gyfer yr ymchwil i gyflwr yr amgylchedd naturiol. Ble mae gwaith ymchwil wedi'i wneud yn barod, dylai fod yn hygyrch i'r cyhoedd a dylai gynnig tystiolaeth sy'n sail i ffurfio polisi datblygu

Os nad yw pobl sy'n gwneud penderfyniadau yn deall sut mae polisïau yn effeithio ar yr amgylchedd naturiol, dylent fabwysiadu agwedd rhagofalus a buddsoddi mewn mwy o waith ymchwil. Ni ddylid gosod polisïau yn eu lle sydd mewn perygl o greu niwed di-droi'n-ôl i'r amgylchedd hyd nes y gellir dangos y gallai'r perygl gael ei leddfu neu ei osgoi

Gall gwella monitro a rhannu gwybodaeth ar gyflwr yr amgylchedd arwain at well penderfyniadau. Er enghraifft, i wella mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, mae

Llywodraeth y DU wedi mabwysiadu'n gywir y targed heriol o gynhyrchu 33 GW o ynni o ffermydd gwynt ar y môr erbyn 2020. Dylai'r rhain gael eu hadeiladu heb greu unrhyw niwed i fywyd gwyllt sensitif yn y môr, felly mae angen buddsoddiadau hir dymor mewn arolygon i ddarganfod y lleoliadau gorau posibl.

Cred yr RSPB y dylai llywodraethau fuddsoddi mewn gwaith ymchwil i wella ein dealltwriaeth o derfynau amgylcheddol a'n heffaith ni ar y byd naturiol ac ar y gwasanaethau ecosystem rydym ni'n dibynnu arnynt

Mae ardaloedd gwarchodedig yn offer hanfodol ar gyfer cadwraeth natur ac mae angen iddynt gael eu sefydlu yn amgylchedd y môr gyda dewis safle wedi'i seilio ar yr wybodaeth wyddonol orau sydd ar gael. Dylai ystyriaethau economaidd-gymdeithasol gael eu cymryd i ystyriaeth wrth reoli'r safleoedd hyn.

Mike Lane (rspb-images.com)



istockphoto.com

4 DYLAI LLUNIO POLISI FOD YN DDEALLADWY AC YN GYSON

Dylai polisïau ar draws y Llywodraeth weithio gyda'i gilydd i'n galluogi i fyw oddi fewn i'n cyfyngiadau amgylcheddol. Er enghraifft, byddai'r dyheadau i ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr o 80% erbyn 2050 yn cael eu tanseilio gan benderfyniadau a fyddai'n arwain at fwy o ddibyniaeth ar danwydd ffosil. Byddai penderfyniadau i gynyddu maint y diwydiant hedfan neu i ganiatáu adeiladu gorsafoedd pŵer wedi eu tanio gan lo, sydd heb gynhwysedd i storio allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn clymu dwylo llywodraethau'r dyfodol hyd yn oed wrth iddynt ymdrechu i gadw at gyllid carbon sy'n gynyddol fynd yn llai.

Dylai'r rhai sy'n llunio penderfyniadau leddfu effaith polisïau'r DU ar gymunedau ac amgylchedd naturiol gwledydd eraill. Er bod y DU yn gwneud cynnydd tuag at wahanu twf economaidd a niwed amgylcheddol gartref, mae llawer o'r niwed wedi'i adleoli dros y môr drwy fasnach, buddsoddi a theithio. Er enghraifft mae olew'r palmwydd sy'n cael ei ddefnyddio i gyfarfod â thargedau biodanwydd y DU yn parhau i fod yr achos dros ddatgoedwigo trofannol.

Cred yr RSPB bod polisïau digyswllt y llywodraeth yn gallu drysu a thanseilio grym y cyhoedd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn ein brwydr i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau sydd wedi'u datganoli ddweud yn glir pa mor fawr yw'r her, ac egluro natur diwygio polisi a'r newid mewn ymddygiad sydd ei angen er mwyn byw oddi fewn i'r targedau a gytunwyd

Er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn effeithiol, mae angen i lywodraethau gael cydlyniad polisi ar draws pob adran a phob sector. Nid yw ehangu'r diwydiant hedfan yn gyson â dyheadau i symud tuag at economi carbon isel.

istockphoto.com

5 DYLAI'R LLYWODRAETH GYMRYD RÔL YR ARWEINYDD A DANGOS ARFER GORAU

Dylai'r cyfrifoldeb am ddatblygu cynaladwy gael ei rannu gan bawb, ond wedi ei arolygu ar y lefel uchaf posibl – er enghraifft, oddi fewn i Swyddfa'r Cabinet neu'r Trysorlys ar gyfer materion sy'n ymwneud â Lloegr. Er na fyddai'n addas o bosibl i ddiffinio'r rôl oddi fewn i ddeddfwriaeth, dylai rhaglen arweinyddiaeth - o bosibl yn cael ei gweinyddu gan Gomisiwn Datblygu Cynaladwy – gael ei sefydlu i roi grym i uwch swyddogion i arwain y newid oddi fewn i'w sefydliadau. Rhaid i arweinwyr fod â dealltwriaeth gref ac ymroddiad i ddatblygu cynaladwy. Bydd hyn o gymorth i gyrff cyhoeddus a phreifat i wneud cynnydd y tu hwnt i unrhyw ddehongliad cyfreithiol o'r hyn y mae cyfrifoldeb yn ei ddisgwyl iddynt ei wneud.

Gall y Wladwriaeth hefyd osod y safonau angenrheidiol i eraill ddilyn drwy gaffael cyhoeddus a rheolaeth o'r stadau. Mae hyn yn dechrau digwydd wrth i adrannau ddechrau gostwng eu hôl troed carbon.

Cred yr RSPB y dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ddangos sut y maent yn cynllunio i gyfarfod â'u targedau amgylcheddol neu i wella eu targedau ar eu stadau.

Mae cyfleoedd arwyddocaol i gadwraeth natur ar Stadau'r Llywodraeth. Dylai awdurdodau cyhoeddus osod targedau uchelgeisiol i warchod ac adnewyddu bywyd gwyllt er mwyn cefnogi cyrraedd targedau ehangach gan y llywodraeth

Sue Kennedy (rspb-images.com)

6 DYLAI CYFRANOGIAD GAN Y CYHOEDD FOD YN GRAIDD WRTH WNEUD PENDERFYNIADAU

Mae dull llywodraethu da yn agored ac yn annog cyfranogi gan gymdeithas sifil, gan gynnwys rhanddeiliaid amgylcheddol. Mae cymdeithas sifil[9] yn chwarae rhan allweddol wrth leisio pryderon dinasyddion ac wrth gyflenwi gwasanaethau sy'n cyfarfod ag anghenion cenedlaethau heddiw a'r dyfodol. Fel y mae 6ed Cynllun Gweithredu Amgylcheddol yr UE yn dweud "mae rôl bwysig gan sefydliadau anllywodraethol (NGO) i'w chwarae, wrth sianelu safbwyntiau'r 'person yn y stryd' i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, i fod yn rhan o grwpiau arbenigol a thechnegol ac i fonitro'r defnydd a wneir o'r ddeddfwriaeth. Maent yn cynrychioli diddordeb cyhoeddus ehangach yn y broses o lunio polisi."

Nid oes gan fyd natur lais, felly mae'n rhaid i eraill siarad ar ei ran. Mae gofyn i lywodraethau ac awdurdodau cyhoeddus i fabwysiadu agwedd cynhwysol pan ddatblygir polisïau ac yn cael eu defnyddio, i annog rhanddeiliaid amgylcheddol i fod â rhan yn y broses.

Cred yr RSPB y bydd mwy o gymryd rhan ddinesig a chyfranogi gan randdeiliaid amgylcheddol yn gymorth i wella ansawdd, perthnasedd ac effeithiolrwydd polisïau'r llywodraeth ac yn sicrhau y byddant yn mynd i'r afael â'r pryderon amgylcheddol-gymdeithasol ochr yn ochr â'r materion economaidd. Bydd agwedd gynhwysol yn debyg o greu mwy o hyder yn y polisïau a'r penderfyniadau, ac yn y sefydliadau sy'n eu datblygu a'u cyflenwi[10].

istockphoto.com

Gall deialog agored rhwng y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a rhanddeiliaid arwain at ateb cynaladwy sy'n amddiffyn bywyd gwyllt a chynefinoedd allweddol, wrth ganiatáu i ddatblygiad ynni adnewyddol pwysig fynd rhagddo.

9 Mae cymdeithas sifil yn cynnwys ymhlith eraill: elusennau, a chyrff anllywodraethol, sefydliadau llawr gwlad a "phartneriaid cymdeithasol" (undebau llafur a sefydliadau cyflogwyr). Gweler papur gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar Drefn Lywodraethol Ewropeaidd (2001)

10 Papur gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar Drefn Lywodraethol Ewropeaidd (2001), http://ec.europa.eu/governance/index_en.htm

7 DYLAI MONITRO CYNNYDD GYNNWYS DANGOSYDDION LLES

Mae Cynnyrch Mewnwladol Crynswth[11] (CMC) a Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) yn aros fel prif ddangosyddion cynnydd, ond nid ydynt yn dweud dim am y math o gymdeithas rydym yn byw ynddi. Ar yr un pryd, ni allant ddynodi os yw twf economaidd yn gynaladwy neu yn deg. Mae CMC, fel dangosydd procsi o fudd cymdeithasol, wedi derbyn llawer o feirniadaeth gan rai o'n heconomegwyr mwyaf adnabyddus, gan gynnwys Enillwyr Nobel Kenneth Arrow, Simon Kuznets, Daniel Kahneman, Robert Solow, Joseph Stiglitz, Amartya Sen a Muhammad Yunus[12]. Mae'n methu cymryd i ystyriaeth gwasanaethau na ellir mo'u marchnata, fel llafur yn y cartref a gwirfoddoli, a cholli cyfalaf naturiol. Er enghraifft, ni fydd teulu sy'n gofalu am riant oedrannus yn cyfrannu dim at CMC y rhanbarth, ond efallai y byddai llygredd amgylcheddol neu droseddu yn gwneud hynny oherwydd eu bod yn creu swyddi a gwario. Mae CMC a mesurau tebyg yn gwyrdroi ein hamgyffred o beth yw pwrpas datblygiad. Maent yn cyfeirio ein sylw at elw amser byr yn lle asesu gwelliannau ansoddol ehangach ym mywydau pobl a'n hetifeddiaeth i genedlaethau'r dyfodol. Erbyn hyn mae'n angenrheidiol ein bod yn anelu i symud y tu draw i CMC. Mae canolbwyntio ar ddangosyddion annigonol wedi costio'n ddrud i ni, a'r canlyniad yw twf na allwn ei gynnal, ecosystemau wedi'u diraddio, bioamrywiaeth wedi'i golli, a hyd yn oed lleihad mewn lles y pen i'r ddynoliaeth, yn arbennig yn y gwledydd sy'n datblygu[13]. Dylai Llywodraethau gynnwys dangosyddion iechyd, cymdeithasol ac amgylcheddol wrth fesur cynnydd cenedlaethol.

11 CMC yw cyfanswm gwario'r prynwr, buddsoddi a'r llywodraeth, yn ogystal â gwerth allforion, minws gwerth y mewnforion

12 Mesur y tu draw i CMC, papur ar y cefndir ar gyfer y gynhadledd "Beyond GDP: Measuring progress, true wealth and the wellbeing of nations", Tachwedd 2007

13 Economeg ecosystemau a bioamrywiaeth, adroddiad interim (2008)

Cred yr RSPB fod CMC yn fesur rhy amrwd o ffyniant. Dylid mabwysiadu dangosyddion amgen o les yn eu lle, sy'n asesu os ydym yn byw oddi fewn i derfynau amgylcheddol ai peidio



Jesper Mattias (rspb-images.com)

"Oherwydd bod cyfrifon cenedlaethol wedi eu selio ar drafodion ariannol, nid yw natur yn cyfrif dim. Nid oes arnom ddyled i fyd natur yn nhermau taliadau ond mae arnom bob peth iddo yn nhermau bywoliaeth."

Bertrand de Jouvenel, 1968.

8 DYLAI ARCHWILIAD A THREFNIADAU ATEBOLRWYDD FOD Â DANNEDD

Mae methiant Gogledd Iwerddon i beidio â mabwysiadu asiantaeth gwarchod yr amgylchedd annibynnol â goblygiadau difrifol ar gyfer trefn lywodraethol amgylcheddol a chynllunio.

Os na fydd awdurdodau cyhoeddus yn cael eu galw i gyfrif am eu methiant i gyfarfod â thargedau amgylcheddol neu ymrwymiadau, bydd ein dyheadau i fyw oddi fewn i gyfyngiadau amgylcheddol yn fethiant. Mae briciau adeiladu archwiliad yn cynnwys oblygiadau i fonitro ac adrodd ar gynnydd wedi'i gefnogi gan gyrff annibynnol sydd wedi eu gorchymyn i ddal yr awdurdod i gyfrif (ee y Comisiwn Datblygu Cynaladwy neu'r ddeddfwriaeth).

Cred yr RSPB fod pencampwyr cryf, annibynnol yr amgylchedd naturiol â rôl angenrheidiol i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. Gallant gynorthwyo i asesu perfformiad gwlad; i gynghori llywodraeth ganolog er mwyn ei dylanwadu i newid polisi a deddfwriaeth; ac i weithredu fel ffocws ar gyfer pryder y cyhoedd.

9 DYLID ASESU'N LLAWN GWIR WERTH YR AMGYLCHEDD NATURIOL A'I YSTYRIED WRTH DDATBLYGU A GWEITHREDU POLISÏAU.

Rhaid asesu'n llawn a deall effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol unrhyw ddewis polisi neu benderfyniad, ac mae'n rhaid i'w canlyniadau gael eu hystyried yn llawn wrth wneud penderfyniadau. Amcan unrhyw asesiad yn y pendraw yw rhoi cyfarpar i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn iddynt gadw mewn cof derfynau amgylcheddol. Bydd hyn yn eu galluogi i greu polisïau a chynlluniau sy'n fwy cynaladwy o ran yr amgylchedd. Ble mae asesiadau'n cael eu cynnal yn effeithiol, dylai'r penderfyniadau sy'n dilyn ein helpu i ymateb i'r her amgylcheddol sy'n ein hwynebu, a gwella ansawdd bywyd pobl.

Gall y defnydd effeithiol o offer, fel Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), a Dadansoddiad Cost a Budd sicrhau fod ystyriaethau amgylcheddol a pholisïau yn cael eu hintegreiddio'n gynnar i mewn i lunio polisi a gwneud penderfyniadau, wedi eu seilio ar sylfaen gwybodaeth gadarn. Er enghraifft, gall SEA adnabod y cynigion gorau ar gyfer yr amgylchedd naturiol ar lefel polisi a chynllunio. Golyga hyn fod y prosiectau sy'n ymddangos wedi integreiddio'n barod ystyriaethau amgylcheddol i fewn i'w cyfiawnhad a'u cynllunio

Mae llawer o offer asesu hefyd angen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ystyried yr effeithiau amgylcheddol cydwladol o bolisïau a chynlluniau cenedlaethol. Mae gan gynghorydd statudol y Llywodraeth ar gadwraeth natur yn y DU ac yn gydwladol, Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), Raglen Effeithiau Byd-eang i gynghori ar yr effaith y byddai gweithredoedd a pholisïau'r DU yn eu cael ar yr amrywiaeth biolegol a daearegol yn gydwladol. Mae hyn yn

Mae natur yn darparu gwasanaethau cyhoeddus am ddim, fel storio carbon mewn mawn diroedd ac y mae'n talu i fuddsoddi i'w gwarchod.

Andy Hay (rspb-images.com)

cyfrannu at ddatblygu ymatebion addas ac yn hybu cynaladwyedd yn y defnydd o adnoddau naturiol ar y rhai y mae bioamrywiaeth byd-eang yn dibynnu[14]. Dylai llunwyr polisi ddefnyddio'r cyngor a'r arbenigedd hwn i'w helpu i osgoi i bolisïau'r DU fod ag effeithiau negyddol ar wledydd eraill.

Heb ystyriaeth lawn a thrylwyr o'r costau a manteision, gall polisïau gyda'r bwriadau gorau arwain at ganlyniadau annisgwyl. Yn y gorffennol, mae cymorthdaliadau a gynlluniwyd i gynorthwyo incwm fferm wedi cael effaith andwyol ar yr amgylchedd naturiol drwy hybu dwysau ffermio gyda'r canlyniad o ddefnyddio mwy o blaladdwyr, chwynladdwyr, a symud perthi ac yn y blaen.

[14] Mae effeithiau cydwladol gweithgaredd y DU gartref wedi'u gosod mewn pedwar categori: masnach; cymorth tramor; buddsoddi tramor a gweithgareddau gan fusnes y DU; a gweithgaredd twristiaeth dramor gan ddinasyddion y DU.

Mae'r RSPB yn cymeradwyo defnyddio arfau asesu'n effeithiol i helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i wneud penderfyniadau cynaladwy sy'n parchu cyfyngiadau amgylcheddol. Rydym ni'n dadlau fod angen asesiad cryfach o benderfyniadau polisi er mwyn creu system gwneud penderfyniadau cynaladwy.

Mark Sisson (rspb-images.com)

10 DYLAI LLYWODRAETHAU FOD YN BAROD I YMYRRYD DRWY DDIWYGIAD CYLLIDOL, POLISI A RHEOLEIDDIO

Canlyniad methiant y farchnad yw diraddio eithafol ein hamgylchedd naturiol, ac mae'n rhaid i Lywodraeth y DU weithredu nawr drwy ddiwygiad cyllidol, polisi a rheoleiddio. Rhaid i weithredu ar fethiannau'r farchnad gael ei yrru gan amcanion datblygu cynaladwy a'n cynorthwyo ni i fyw oddi fewn i derfynau amgylcheddol.

Yn erbyn y gefnlen o gyllid cyhoeddus sy'n mynd yn dynnach bob dydd, mae rhai yn gofyn a allwn fforddio i fyw oddi fewn i derfynau amgylcheddol. Yr ateb syml yw na fedrwn ni ddim fforddio peidio. Mae'r costau sydd ynghlwm gyda chyfraddau cyfredol o golli bioamrywiaeth yn enfawr, fel y dangoswyd yn yr adroddiad ar economeg ecosystem a bioamrywiaeth a ysgogwyd gan G8+5 (TEEB). Mae cyfanswm yr arian cyhoeddus sydd ei angen i rwystro'r golled yn gymharol fach ac eto mae ffigyrau'r llywodraeth ei hunan yn dangos fod ar hyn o bryd ddiffyg cyllid i gyfarfod â thargedau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU

I symud i lwybr twf mwy cynaladwy, mae'n rhaid i lywodraeth y DU greu a chefnogi amgylchedd rheoleiddiol, sy'n gymesur, atebol, cyson, tryloyw ac wedi'i dargedu. Heb hyn, byddwn yn parhau i ddwyn costau trachwant a meddwl yn y tymor byr, a byddwn yn dioddef fwyfwy effeithiau methu â byw oddi fewn i derfynau ein hamgylchfyd.

Andrew Parkinson (rspb-images.com)

Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi dileu neilltuo tir. Roedd hyn wedi golygu fod ffermwyr yn cymryd cyfran o dir âr allan o'u cynnyrch ac yn anfwriadol bu hyn yn fendith i fywyd gwyllt. Roedd yr RSPB wedi rhybuddio y byddai bywyd gwyllt tebyg i'r ehedydd a'r gylfinir yn gallu bod o dan fygythiad oherwydd bod ardaloedd eang o dir a neilltuwyd wedi ei aredig. Cred yr RSPB y dylai llywodraethau gynllunio mesurau ail osod i gadw lles amgylcheddol neilltir.

Mark Hamblin (rspb-images.com)

Yr RSPB

Pencadlys y DU

The Lodge, Sandy, Bedfordshire SG19 2DL
Ffôn: 01767 680551
www.rspb.org.uk

Pencadlys Gogledd Iwerddon

Belvoir Park Forest, Belfast BT8 7QT
Ffôn: 028 9049 1547
www.rspb.org.uk/northernireland

Pencadlys yr Alban

Dunedin House, 25 Ravelston Terrace,
Caeredin EH4 3TP
Ffôn: 0131 311 6500
www.rspb.org.uk/scotland

Pencadlys Cymru

Tŷ Sutherland, Pont y Castell, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen,
Caerdydd CF11 9AB
Ffôn: 029 2035 3000
www.rspb.org.uk/wales

Mae'r RSPB yn eiriol dros adar a bywyd gwyllt ac yn mynd i'r afael â'r problemau sy'n bygwth ein hamgylchedd. Mae byd natur yn anhygoel – gallwch chi ein helpu i'w warchod.

Llun y clawr: alamy.com

Elusen sy´n gweithio i sicrhau amgylchedd iach i adar a bywyd gwyllt, gan helpu i greu gwell byd i bawb, yw´r RSPB. Rydym yn rhan o BirdLife International, y bartneriaeth fyd-eang o sefydliadau gwarchod adar.

Mae'r Gymdeithas Frenhinol dros Warchod Adar (yr RSPB) yn elusen gofrestredig: Lloegr a Chymru rhif 207076, Yr Alban rhif SC037654.